DAVIES, WILLIAM (1729? - 1787), offeiriad Methodistaidd

Enw: William Davies
Dyddiad geni: 1729?
Dyddiad marw: 1787
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn Stangrach, Llanfynydd. Dywed Pantycelyn ar ddalen-deitl ei farwnad iddo farw 'yn y Driugeinfed Flwyddyn o'i Oed' ond yr unig gofnod yng nghofrestr y plwyf yw un am fedyddio un ' Gulielmus filius Jonathan David,' 24 Awst 1729. Ni wyddys ym mhle'r addysgwyd ef na pha bryd y cafodd ei ordeinio. Dywedir iddo ymsefydlu'n gurad yn Llanfihangel Ynys Afan yn 1754. Gwelir ei enw gyntaf yng nghofrestr Llanilltud Nedd yn Rhagfyr 1762; bu'n gurad yno hyd 1769 neu 1770. Collodd ei le, meddir, oherwydd ei gyswllt â'r Methodistiaid. Ceir ei enw'n aml yng nghofrestr Llangiwc o 1771 hyd 1775. Ailgododdd hen gapel anwes Gyfylchi yn 1776 a gweinidogaethodd yno weddill ei oes. Teithiodd a phregethodd lawer dros Gymru gyda'r fath arddeliad nes i'w frodyr dybied ei fod yn addas i arolygu seiadau sir Benfro ar farwolaeth Howel Davies. Canodd emynau hefyd a chyhoeddwyd ' Rhai Hymnau o Fawl i'r Oen ' o'r eiddo yn llyfr Dafydd William, *Myfyrdod Pererin, ...* (Caerfyrddin, I. Daniel, d.d.); ceir dau emyn o'r eiddo yn *Nodau y gwir Gristion ...* (Caerfyrddin, I. Daniel, d.d.): Tybir mai ef a drosodd i'r Gymraeg lyfr John Newton, *Chwech ar Hugain o Lythyrau ar Destynau Crefyddol, gan Omicron* (Caerfyrddin, J. Ross, 1777). Bu farw 17 Awst 1787, a chaddwyd ef ym mynwent S. Thomas, Castell Nedd. Canwyd marwnadau i'w goffadwriaeth gan Ddafydd William, Peter Williams, Pantycelyn.'

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Methodistiaeth Cymru (1851–6), iii, 41-4

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 478-83

Yr Adolygydd, ii, 498-502

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 157-9, 480

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), 188

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd., xii, 25-7

G. Thomas, *Lloffyn olaf o faes hynafiaethau Capel y Gyfylchi, ger Pontrhydyfen, Port Talbot* (Treorchy 1899), 29-50

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734584

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu